# Cyflwyniad i Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cymhwyster ymarfer – canllaw i ddysgwyr/myfyrwyr



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Trosolwg o'r fframwaith** | **4** |
| Cwblhau cyfres cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 2020 | 5 |
| **Cymhwyster Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | **6** |
| Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? | 6 |
| Gofynion mynediad i ddysgwyr | 6 |
| Nodau ac amcanion | 7 |
| Pa gyfleoedd sydd ar gael i symud ymlaen? | 7 |
| Sut gallaf fod yn hyderus bod y cymhwyster hwn yn gyfoes ac y bydd yn cael ei gydnabod gan gyflogwyr? | 8 |
| **Strwythur y cymhwyster** | **9** |
| Oriau dysgu dan arweiniad a chyfanswm amser y cymhwyster | 9 |
| Unedau | 10 |
| Asesu | 11 |
| Beth yw uned? | 12 |
| Mae rhai geiriau a gosodiadau yn ymddangos mewn print trwm – pam? | 13 |
| Pa feysydd pwnc y byddaf yn dysgu amdanynt? | 15 |
| Beth sy'n rhaid i mi ei wneud i gyflawni'r cymhwyster hwn? | 21 |
| **Canolbwyntio ar arweinyddiaeth** | **22** |
| **Ymgysylltu â chyflogwyr** | **23** |
| Beth yw mentor yn y gweithle? | 23 |
| Nid wyf yn gyflogedig - ydw i'n cael cwblhau'r cymhwyster hwn o hyd? | 23 |
| **Sut olwg fydd ar fy nhaith drwy'r cymhwyster?** | **24** |
| Cam 1 – Cyn cyflwyno | 25 |
| Pa adnoddau fydd eu hangen arnaf? | 27 |
| Pa unedau y byddaf yn eu cwblhau? | 27 |
| Beth yw credydau? | 28 |
| Grwp Dewisol | 30 |
| Cam 2 – Cyfnod Dysgu | 31 |
| Cyfnod dysgu ffurfiol | 33 |
| Asesu ffurfiannol | 33 |
| Paratoi ar gyfer asesiad | 33 |
| Cam 3 – Cyfnod Asesu Crynodol | 35 |
| Sut bydd fy nghymhwyster yn cael ei asesu? | 36 |
| Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud? | 38 |
| Dull asesu | 39 |
| Tasg 1: Portffolio o dystiolaeth | 40 |
| Tasg 2: Project busnes | 40 |
| Tasg 3: Trafodaeth Broffesiynol | 40 |
| Pa dystiolaeth y gallwn i ei defnyddio yn fy mhortffolio? | 41 |
| Tyst arbenigol | 41 |
| Log myfyriol | 42 |
| Beth yw trafodaeth broffesiynol? | 46 |
| Cyn y drafodaeth | 46 |

Amseriadau 46
Cadw tystiolaeth 47
Cefnogi'r broses asesu 47
Cyswllt Rheolaidd 47
Cyflwyno gwaith 48
Cefnogaeth ac adborth 48
Cam 4 – Cwblhau 49
Ailgyflwyno 50
Beth sy'n digwydd ar ôl fy nhrafodaeth broffesiynol? 50
Pa gefnogaeth sydd ar gael i mi? 51
Sut alla i baratoi ar gyfer fy asesiadau? 52
Dilyniant ar draws y sector ehangach 53
A fydd cyflogwyr y tu hwnt i Gymru gydnabod fy nghymhwyster? 54
Cyllid 54
Sut rydw i'n hoffi dysgu – Beth yw fy 'hoff' arddull dysgu? 55

# Trosolwg o'r fframwaith

Rhwng 2015 a 2016 cynhaliodd Cymwysterau Cymru adolygiad o'r holl gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant y gellid eu hariannu yng Nghymru. Yn dilyn yr adolygiad, daeth Cymwysterau Cymru i'r casgliad bod y nifer mawr o gymwysterau oedd ar gael yn rhy ddryslyd i ymgeiswyr, rhieni/gofalwyr a chyflogwyr.

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, comisiynwyd City & Guilds a CBAC (**y Consortiwm**) gan Cymwysterau Cymru i ddatblygu o leiaf 22 o gymwysterau gyda'r bwriad o ddiwallu anghenion datblygol y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant (gweler y llun ar dudalen 5). Mae'r Consortiwm wedi gweithio'n agos gyda Chymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a chyrff eraill yn y sector, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr gweithleoedd i sicrhau bod y cymwysterau newydd yn arloesol, yn addas at y pwrpas ac o'r ansawdd gorau.

Mae City & Guilds a CBAC yn Gyrff Dyfarnu cydnabyddedig. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cael ein cymeradwyo gan Gymwysterau Cymru, a chyrff eraill ledled y DU, i lunio, datblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau yn unol ag amodau a rheoliadau penodol.

Mae mwy y wybodaeth am adolygiad Cymwysterau Cymru yma:

https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

P'un a ydych chi yn yr ysgol neu mewn coleg chweched dosbarth, yn y gwaith neu mewn coleg gyda darparwr seiliedig yn y gwaith, mae'r gyfres o gymwysterau newydd wedi'i dylunio i ddiwallu eich anghenion. Maent ar gael o Lefel 1 i Lefel 5, a gan gynnwys TGAU a TAG UG a Safon Uwch, maen nhw'n darparu cyfleoedd ar gyfer cynnydd p'un a ydych chi'n ystyried mynd i weithio, yn gobeithio am gynnydd gyrfa neu fynd i'r coleg neu'r brifysgol.

Mae dogfennau'r cymhwyster ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Siaradwch â'ch tiwtor/aseswr am gwblhau eich cymhwyster yn y Gymraeg. Mae deunyddiau cefnogi ar gael ar-lein gan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru, ac maen nhw'n cynnwys:

- Llawlyfr y cymhwyster - yn cynnwys canllawiau unigol ar gyfer yr unedau
- Pecyn asesu.

# Cwblhau cyfres cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 2020

Mae'r canllaw i fyfyrwyr hwn yn canolbwyntio ar gymhwyster **Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol**. Mae'n rhaid i chi fod o leiaf 18 mlwydd oed i gwblhau'r cymhwyster hwn. Nodir y ffordd y mae'r gyfres yn cydweddu â'r gyfres newydd o gymwysterau yn y fframwaith isod.

## Lefel 5

- Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **Yn fyw erbyn: Medi 20**

## Lefel 4

- Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
  1) Eiriolaeth Annibynnol
  2) Lleoliad Oedolion/Bywydau a Rennir
  3) Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol
  **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion, Damcaniaethau a Chyd-destunau **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- Arwain a Rheoli Gofal,Chwarae,Dysgu a Datblygiad Plant: Egwyddorion, Damcaniaethau a Chyd-destunau **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant **Yn fyw erbyn: Medi 20**

## Lefel 3

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) **Yn fyw: Medi 19**
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc) **Yn fyw: Medi 19**
- Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol **Yn fyw: Medi 20**
- TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant **Yn fyw: Medi 20**
- Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori **Yn fyw: Medi 20**
- Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **Yn fyw: Medi 19**

## Lefel 2

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) **Yn fyw: Medi 19**
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau **Yn fyw: Medi 19**
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol: **Craidd*** **Yn fyw: Medi 19**
- TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant **Yn fyw: Medi 19**
- Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori **Yn fyw: Medi 19**
- Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: **Craidd*** **Yn fyw: Medi 19**
- Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **Yn fyw: Medi 19**

### Allwedd

- Seiliedig ar ymarfer
- Seiliedig ar wybodaeth
- * Argymhellir sefyll y cymhwyster Craidd cyn neu ar yr un pryd â Lefel 2 neu Lefel 3
- Cynigir gan City & Guilds
- Cynigir gan CBAC

# Cymhwyster Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Rydych chi'n gweithio tuag at gymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer** sydd wedi'i ddylunio ar gyfer unigolion sy'n gweithio mewn rôl arweiniol neu reoli yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion, a phlant a phobl ifanc). Mae'r cymhwyster hwn yn seiliedig ar ymarfer ac mae'n asesu'ch gwybodaeth ac ymarfer drwy eich gwaith. Mae'r cymhwyster hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, ymddygiadau a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer arwain a rheoli lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cymhwyster yn rhoi cyfleoedd i'r rheini sy'n arwain a rheoli lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion, plant a phobl ifanc.

## Gofynion mynediad i ddysgwyr

Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae'n ofynnol i chi eu cyflawni yn y cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys cymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**. Felly:

- Rhaid i chi gwblhau'r cymhwyster canlynol neu gymhwyster cymaradwy y cytunwyd arno* cyn cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn.
  **8040-09 Lefel 4 Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.**
- Bydd eich canolfan, fel rhan o'ch proses sefydlu i'r rhaglen, yn cadarnhau yr ymdriniwyd â'r holl feysydd gwybodaeth yn ddigon manwl, a bod gennych ddigon o ddealltwriaeth i symud ymlaen i raglen Lefel 5.
- Nid yw City & Guilds yn pennu unrhyw ofynion cofrestru **ychwanegol** ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ymgeiswyr y potensial i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus, a'r cyfle i wneud hynny.

***Cymwysterau cymaradwy y cytunwyd arnynt:** Dyfarniad Camu Ymlaen i Reoli (Prifysgol De Cymru).

## Nodau ac amcanion

Bydd cymhwyster **Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. Yn arbennig, dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn:

- deall amrywiaeth o gysyniadau, damcaniaethau a thechnegau arwain a rheoli ac yn eu rhoi ar waith
- myfyrio ar eu harddulliau arwain a rheoli eu hunain ac eraill a deall sut mae hyn yn effeithio ar y rheini y maent yn gweithio gyda nhw, yn y lleoliad a'r tu allan i'r lleoliad
- arwain a rheoli trefniadau ar gyfer gwella perfformiad mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol
- arwain a rheoli dulliau gweithredu person/plentyn-ganolog wrth ymarfer
- arwain a rheoli trefniadau ar gyfer gwella gwasanaethau a ddarperir yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol
- gweithio fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, a meddwl yn feirniadol a myfyriol er mwyn llunio barn hyddysg sy'n cynnwys defnyddio a dehongli data
- defnyddio sgiliau cyfathrebu, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol yn eu rôl.

## Pa gyfleoedd sydd ar gael i symud ymlaen?

Byddai cwblhau'r cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu cyfleoedd cyflogaeth neu i barhau ag astudiaethau pellach ar lefel uwch. Bydd dysgwyr yn gallu gwneud cais i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Cofrestredig, ar yr amod eu bod hefyd yn bodloni unrhyw ofynion cofrestru eraill.

# Sut gallaf fod yn hyderus bod y cymhwyster hwn yn gyfoes ac y bydd yn cael ei gydnabod gan gyflogwyr?

Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â'r Consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle o bob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'n debygol y bydd eich coleg neu ddarparwr seiliedig yn y gwaith yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn eich ardal a byddan nhw wedi datblygu rhaglen astudio i sicrhau y bodlonir holl ofynion y cymhwyster yn llawn. Gall eich dysgu ddigwydd mewn amgylchedd strwythuredig iawn, e.e. mewn ystafell ddosbarth draddodiadol, neu drwy ddull mwy cyfunol sy'n cynnwys dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac ar-lein. Fel arall, efallai y cewch gymorth i ddysgu 'yn y gwaith' ac i ymgymryd â rhywfaint o astudio hunan-gyfeiriedig. Pa bynnag ddull dysgu a ddefnyddir, rydym wedi darparu rhai adnoddau cefnogol a fydd yn eich helpu ar hyd y ffordd.

P'un a ydych chi yn y coleg neu'n cael eich cefnogi gan ddarparwr seiliedig yn y gwaith, mae'n debygol y bydd angen i chi ddysgu gwybodaeth sy'n newydd i chi.  Gall nifer o ffactorau gwahanol ddylanwadu ar sut rydych yn dysgu, gan gynnwys yr hyn sy'n eich cymell a pha fath o amgylchedd y mae ei angen arnoch. Bydd eich tiwtor/athro/aseswr am weithio gyda chi i ddarganfod sut y gallan nhw eich cefnogi i ddysgu'n effeithiol – yn aml cyfeirir at hyn fel eich **dull 'dewisol' o ddysgu** (gweler tudalen 51 am fwy o wybodaeth am ddulliau 'dewisol' o ddysgu).

# Strwythur y cymhwyster

## Oriau dysgu dan arweiniad a chyfanswm amser y cymhwyster

| | | |
|---|---|---|
| **Lleiafswm oriau dysgu dan arweiniad** | **395 awr** | Dyma faint o ddysgu ac asesu dan oruchwyliaeth sy'n ofynnol i gyflwyno'r cymhwyster a gellid ei ddysgu at bwrpasau cynllunio. |
| **Cyfanswm Amser y Cymhwyster** | **1200 awr** | Dyma gyfanswm yr amser y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn cyflawni cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (a restrir ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol. |

# Unedau

Mae cymhwyster **Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yn cynnwys unedau gorfodol a dewisol:

Mae yna ddau grŵp gorfodol: Grŵp A a Grŵp B.

| GRWPIAU GORFODOL | |
|---|---|
| GRŴP A* | GRŴP B** |
| **Uned 520: Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog** | Uned 522: Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol |
| | Uned 523: Arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol |
| **Uned 521: Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog drwy eiriolaeth annibynnol** | Uned 524: Ymarfer proffesiynol |
| | Uned 525: Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo diogelu unigolion |
| | Uned 526: Arwain a rheoli iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith |

*Dylai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn er mwyn arwain a rheoli gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ddewis uned 521 o Grŵp Gorfodol A.

*Dylai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn ar gyfer pob gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol arall ddewis uned 520 o Grŵp Gorfodol A.

**__Rhaid__ i bob dysgwr sy'n cyflawni'r cymhwyster hwn gwblhau pob uned o grŵp gorfodol B.

Mae un grŵp o unedau dewisol, gyda chyfanswm o 21 uned. Rhaid i chi ddewis o leiaf un uned ddewisol. Rhaid i'ch unedau o ddewis o'r grŵp dewisol fod yn hafal i gyfanswm o 30 credyd. Dylech ddewis unedau sy'n berthnasol i'ch rôl ac i'r unigolion rydych yn gofalu amdanynt yn eich sefydliad/lleoliad. Amlinellir gwybodaeth bellach am unedau Lefel 5 isod a gellid eu gweld ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru:

## Asesu

Y prif ddulliau asesu yn y cymhwyster hwn fydd portffolio o dystiolaeth, project busnes, arsylwi ymarfer a thrafodaeth broffesiynol. Dyluniwyd yr amcanion asesu i ganiatáu ar gyfer casglu tystiolaeth gyfannol. Mae hyn yn golygu y bydd eich tystiolaeth yn cael ei chasglu o sefyllfaoedd gweithio go iawn a fydd yn dangos y gallwch weithio'n hyderus ac yn gyson ar draws holl agweddau'r cymhwyster ar fwy nag un achlysur, gan eich cefnogi i ddangos eich gwybodaeth a'ch sgiliau ar draws unedau ac amcanion asesu gwahanol yn yr un gweithgaredd a lleihau unrhyw ailadrodd diangen wrth asesu.

Mae'r tasgau yn gofyn i chi integreiddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau mewn ffordd sy'n adlewyrchu gofynion y gweithle a'r sector o ran darparu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol. Felly mae'r asesiad yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd a chysondeb eich ymarfer.

# Beth yw uned?

Trefnir yr holl wybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau ac ymarfer sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster hwn mewn unedau – yn debyg i benodau mewn llyfr. Dangosir cynllun yr uned a ddefnyddir yn y cymhwyster hwn isod, ac rydym wedi nodi rhywfaint o agweddau a iaith allweddol y byddwch yn fwy a mwy cyfarwydd â nhw wrth i chi symud ymlaen drwy eich taith dysgu ac asesu.

**Rhif yr uned**

**Teitl yr uned**

**Lefel yr uned**

**ODA:** Nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad a argymhellir ar gyfer yr uned.

**Nod/crynodeb uned:** Crynodeb ar lefel uchel o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a/neu'r sgiliau o gynnwys yr uned y mae disgwyl i'r dysgwr eu cyflawni wrth ei chwblhau. Gall gynnwys gwybodaeth am y mathau o osodiadau y mae'r uned yn ymwneud â nhw, neu'n cael eu heithrio rhagddo.

**Deilliant dysgu:** Rhan ar wahân o ddysgu sy'n berthnasol i nod yr uned. Bydd nifer y DD yn amrywio yn ôl uned.

**Meini prawf asesu:** Eitemau o wybodaeth, dealltwriaeth neu sgiliau angenrheidiol i fodloni deilliant dysgu penodol. Asesir pob MPA dros amser, ond nid mewn asesiad unigol.

**Uned 520** **Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog**

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 60 |
| **Credyd:** | 20 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y cymwyseddau sydd eu hangen i arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog. Mae'n seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc |

Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi dulliau gweithredu cydgynhyrchiol person/plentyn-ganolog sy'n cyfrannu at y broses o nodi a chyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion

1.2 Arwain ymarfer sy'n hyrwyddo dulliau gweithredu cynhwysol mewn perthynas ag asesiadau


1.3 Datblygu diwylliant sy'n grymuso unigolion i fynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt ac i wneud penderfyniadau am y canlyniadau y maent am eu cyflawni

1.4 Arwain a rheoli ymarfer sy'n sicrhau y caiff unigolion gefnogaeth i wneud y canlynol:
- sicrhau llais a rheolaeth dros benderfyniadau sy'n ymwneud â'r gofal a'r gefnogaeth a gânt a'r ffordd y caiff eu gwasanaethau ei ddylunio a'i ddarparu
- nodi'r canlyniadau y maent am eu cyflawni a'r ffordd orau o'u helpu i wneud hynny
- nodi a chydnabod eu cryfderau a'u sgiliau
- datblygu a chynnal sgiliau sy'n eu cefnogi wrth gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau, profiadau a thasgau beunyddiol sy'n hybu annibyniaeth
- cydbwyso eu hawliau, cyfrifoldebau a risgiau
- cynnal cydberthnasau sy'n bodoli eisoes a meithrin cydberthnasau newydd
- gwerthuso'r broses o gyflawni'r canlyniadau a nodwyd ganddynt

Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer – Llawlyfr y Cymhwyster 28

# Mae rhai geiriau a gosodiadau yn ymddangos mewn print trwm – pam?

Ym mhob uned, sylwer bod rhai geiriau a gosodiadau mewn print **TRWM**. Golyga hyn y dylid eu hystyried mewn ffordd benodol neu fod diffiniad neu ystyr penodol y mae angen ei ddefnyddio. Mae gwybodaeth bellach yn ymwneud â'r geiriau a'r gosodiadau hyn i'w gweld yn adran 'Amrediad' yr uned.



**Uned 525 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo diogelu unigolion**

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 60 |
| **Credyd:** | 12 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hyrwyddo diogelu unigolion mewn rôl arwain a rheoli. Mae'n seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc |

Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol er mwyn diogelu unigolion

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n galluogi gweithwyr i gydymffurfio â gofynion diogelu
1.2 Monitro cydymffurfiaeth â gofynion diogelu a chymryd camau gweithredu lle na cheir cydymffurfiaeth
1.3 Rheoli perfformiad gweithwyr er mwyn bodloni gofynion diogelu deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Ystod**
**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

Deilliant dysgu:

2. Datblygu a chynnal gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiogelu unigolion

Meini prawf asesu

Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer – Llawlyfr y Cymhwyster 61

Geiriau mewn print **trwm**

**Amrediad:** Nodi'n union yr hyn y mae'n rhaid ei ystyried wrth fynd i'r afael â'r geiriau neu'r gosodiadau hyn mewn print trwm.

## Ble alla i weld mwy o wybodaeth am bob uned?

Ar ddiwedd bob uned rydym wedi darparu arweiniad pellach, a bydd eich tiwtor/hyfforddwr/aseswr yn cyfeirio at y rhain i lywio eu gwaith addysgu, dysgu ac asesu. Dangosir y Canllaw Cyflwyno ar gyfer uned 521 yma. Mae rhain i'w gweld yn Llawlyfr y Cymhwyster.

**Uned 521 Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog drwy eiriolaeth annibynnol**
Gwybodaeth Ategol

***Canllawiau cyflwyno***

**Noder,** dylai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn er mwyn **arwain a rheoli gwasanaethau eiriolaeth annibynnol** ddewis cwblhau'r uned hon (**521**) o Grŵp Gorfodol A. Dylai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn ar gyfer pob gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol arall ddewis uned 520 o Grŵp Gorfodol A.

Mae'r uned hon yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn arbennig:

- Uned 410 Deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau ymarfer person/plentyn-ganolog - Deilliannau dysgu: 1; 2; 4; 5; 6; 7; 8
- Uned 412 Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol - Deilliannau dysgu: 2; 7

Byddai'r canllawiau a'r adnoddau a restrir ar gyfer yr unedau hyn yn berthnasol i Uned 521.

Byddai **dulliau gweithredu** yn cynnwys eiriolaeth heb gyfarwyddyd ac eiriolaeth â chyfarwyddyd

Gall **cyfleoedd datblygu** gynnwys cyfuniad o raglenni addysgol, gweithgareddau hyfforddi, mentora, hyfforddi, cysgodi, sefydlu, goruchwylio, darllen o dan arweiniad, gwaith ymchwil, setiau dysgu gweithredol, trafodaethau grŵp cyfoedion

***Adnoddau***

- Adnodd Gofal Cymdeithasol Cymru 'Camau Cyntaf mewn Rheoli': **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/camau-cyntaf-mewn-rheoli**
- Adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Codau Ymarfer Proffesiynol a Chanllawiau Ymarfer: **https://gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer/codau-ymarfer-a-chanllawiau**

***SGC cysylltiedig***

- **SCDLMCB2:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau sy'n hyrwyddo lles unigolion
- **SCDLMCB3:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy'n ymdrin yn effeithiol â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd
- **SCDLMCB6:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy'n cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
- **SCDLMCE1:** Arwain a rheoli arfer a systemau cyfathrebu effeithiol

Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer – Llawlyfr y Cymhwyster 39

# Pa feysydd pwnc y byddaf yn dysgu amdanynt?

Wedi'u cynnwys ym mhob uned yn y cymhwyster mae meysydd dysgu sy'n cysylltu â theitl pob uned. Fel y dangosir uchod, cyflwynir y rhain mewn Deilliannau Dysgu a Meini Prawf Asesu. Darperir trosolwg o bob uned yn y cymhwyster **Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol** isod.

| GRŴP GORFODOL A | |
|---|---|
| **Uned** | **Crynodeb o'r Uned** |
| **Uned 520: Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r cymwyseddau y mae eu hangen i arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog. Mae'n adeiladu ar ddysgu o gymhwyster Lefel 4 Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc. |
| **Uned 521: Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog drwy eiriolaeth annibynnol** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r cymwyseddau y mae eu hangen i arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog drwy eiriolaeth annibynnol. Mae'n adeiladu ar ddysgu o gymhwyster Lefel 4 Arwain a Rheoli ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'eiriolaeth annibynnol' hefyd yn cynnwys eiriolaeth broffesiynol annibynnol. |

| GRŴP GORFODOL B | |
|---|---|
| **Uned** | **Crynodeb o'r Uned** |
| Uned 522: Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r cymwyseddau y mae eu hangen i arwain a rheoli perfformiad tîm yn effeithiol. Mae'n adeiladu ar ddysgu o gymhwyster Lefel 4 Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc. |
| Uned 523: Arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae eu hangen i arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau i fodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol. Mae'n adeiladu ar ddysgu o gymhwyster Lefel 4 Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc. |
| Uned 524: Ymarfer proffesiynol | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i fireinio ar eu hymarfer proffesiynol, a'i ddatblygu, mewn rôl arwain a rheoli. Mae'n adeiladu ar ddysgu o gymhwyster Lefel 4 Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'iechyd a gofal cymdeithasol' hefyd yn cyfeirio at eiriolaeth. |
| Uned 525: Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo diogelu unigolion | Nod yr uned yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae eu hangen i hyrwyddo diogelu unigolion mewn rôl arwain a rheoli. Mae'n adeiladu ar ddysgu o gymhwyster Lefel 4 Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc. |
| Uned 526: Arwain a rheoli iechyd, diogelwch a diogeledd yn y lleoliad gwaith | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae eu hangen i arwain a rheoli iechyd, diogelwch a diogeledd yn lleoliad y gwaith.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc. |

GRŴP DEWISOL

| Uned | Crynodeb o’r Uned |
|---|---|
| Uned 527: Arwain a rheoli’r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y dealltwriaeth a’r sgiliau sydd ei hangen I arwain a rheoli’r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant sy’n derbyn gofal.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae’r term ‘plant’ yn cyfeirio at blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal. |
| Uned 528: Arwain a rheoli’r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc anabl | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y dealltwriaeth a’r sgiliau sydd eu hangen I arwain a rheoli cefnogaeth I blant a phobl ifanc anabl gyflawni canlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys eu twf, dysgu a datblygiad cyfannol.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae’r term ‘plant’ yn cyfeirio at ‘blant a phobl ifanc anabl’. |
| Uned 529: Arwain a rheoli’r gefnogaeth i leihau arferion cyfyngol drwy ddulliau cadarnhaol i gefnogi ymddygiad | Mae’r uned hon wedi’i anelu at y rheini sy’n gyfrifol am arwain a rheoli cefnogaeth ymddygiadol cadarnhaol.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae’r term ‘unigolyn’ yn cyfeirio at oedolion neu blant a phobl ifanc. |
| Uned 530: Arwain a rheoli gofal a chefnogaeth i unigolion sy’n byw yn eu cartrefi eu hunain | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a’r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gofal a chefnogaeth i unigolion sy’n byw yn eu cartrefi eu hunain. |
| Uned 531: Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy’n byw mewn cartrefi gofal | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a’r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy’n byw mewn cartrefi gofal.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae’r term ‘unigolyn’ yn cyfeirio at oedolion hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal. |
| Uned 532: Arwain a rheoli ymarfer mewn gofal dementia | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a’r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy’n byw gyda dementia.<br><br>Yng-nghyd destun yr uned hon, mae’r term ‘unigolyn’ yn ymwneud â phobl sy’n byw gyda dementia. |

| GRŴP DEWISOL | |
|---|---|
| **Uned** | **Crynodeb o'r Uned** |
| **Uned 533: Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn ymwneud ag oedolion sy'n byw gyda salwch meddwl. |
| **Uned 534: Arwain a rheoli cefnogaeth i unigolion ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.<br><br>Yng-nghyd destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion awtistig a/neu oedolion ag anableddau dysgu. |
| **Uned 535: Arwain gwaith gydag unigolion sydd a nam ar y synhwyrau** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli ymarfer a ar gyfer unigolion â nam ar y synhwyrau. |
| **Uned 536: Arwain a rheoli gwaith yn ymwneud a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau** | Bydd yr uned hon yn helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwaith gydag unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau. |
| **Uned 537: Arwain gwaith yn ymwneud â gofal diwedd oes** | Diben yr uned hon yw asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r dysgwr mewn perthynas ag arwain a rheoli gwasanaeth sy'n darparu gofal diwedd oes. Bydd y dysgwr yn dadansoddi amrywiaeth o adnoddau a damcaniaethau er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer unigolion mewn perthynas a gwasanaethau diwedd oes ac yn helpu staff ac eraill i ddarparu gwasanaethau rhagorol i unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr. |
| **Uned 538: Arwain a rheoli maes clinigol** | Mae'r uned hon yn cwmpasu'r sgiliau sydd eu hangen i reoli ac arwain maes clinigol. Yng nghyd-destun yr uned hon byddai hyn yn cynnwys Nyrsys Ardal a gwasanaethau cymunedol eraill y GIG. |

GRŴP DEWISOL

| Uned | Crynodeb o'r Uned |
|---|---|
| **Uned 539: Arwain a rheoli gwasanaethau lleol oedolion/ cysylltu bywydau** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar y rhai sy'n gyfrifol am reoli gwasanaethau Lleol Oedolion/Cysylltu Bywydau.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'gofalwyr' yn cyfeirio at ofalwyr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau. |
| **Uned 540: Arwain a rheoli gwasanaethau eirioli annibynnol** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwasanaethau eirioli annibynnol. |
| **Uned 541: Arwain  a rheoli gwaith gyda gofalwyr** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau i arwain a rheoli gwaith gyda gofalwyr.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'gofalwyr' yn cyfeirio at ofalwyr ifanc a/neu ofalwyr sy'n oedolion. Mae'r term 'unigolion' yn ymwneud ag oedolion a/neu blant. |
| **Uned 542: Arwain cefnogaeth i ofalwyr** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau i arwain cefnogaeth i ofalwyr.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'gofalwyr' yn cyfeirio at ofalwyr ifanc a/neu ofalwyr sy'n oedolion. Mae'r term 'unigolyn' yn ymwneud ag oedolion a/neu blant. |
| **Uned 543: Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant.<br><br>Mae timau rhyngbroffesiynol yn cynnwys gwahanol broffesiynau a grwpiau galwedigaethol sy'n cydweithio i wneud asesiadau a phenderfyniadau. |

GRŴP DEWISOL

| Uned | Crynodeb o'r Uned |
|---|---|
| **Uned 544: Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr ym maes darparu gwasanaethau. |
| **Uned 545: Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwaith cynllunio a phrosesau busnes.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant. |
| **Uned 546: Arwain a rheoli tîm therapi** | Mae'r uned hon yn ymdrin a'r sgiliau sydd eu angen i arwain tîm therapi, neu is-arbenigedd.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn ymdrin yn uniongyrchol a chleifion a bydd yr unigolyn yn gyfrifol am dim sy'n darparu gofal.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, gall cleifion gynnwys plant a/neu oedolion gan ddibynnu ar ffocws y tîm therapi. |
| **Uned 401: Defnyddio asesiadau i ddatblygu cynlluniau personol** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio gwybodaeth asesu er mwyn datblygu cynllunia personol i ddarparu gofal a chefnogaeth sy'n cyflawni canlyniadau a nodwyd.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion neu blant a phobl ifanc. Byddai asesu ymarfer yn cynnwys teuluoedd/gofalwyr lle y bo'n briodol. |

# Beth sy’n rhaid i mi ei wneud i gyflawni’r cymhwyster hwn?

Er mwyn cyflawni’r cymhwyster **Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, bydd angen i chi wneud y canlynol:

1. gweithio’n agos gyda’ch **tiwtor/athro/aseswr/mentor yn y gweithle/cyflogwr**
2. bod yn barod i brofi a dysgu am bethau newydd sy’n ymwneud â gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol
3. paratoi ar gyfer asesiadau a’u cwblhau – mae mwy o wybodaeth am asesu ar dudalen 11.

Drwy gydol cymhwyster **Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, byddwch yn dod i gysylltiad â phobl mewn sawl rôl gwahanol, a byddan nhw’n eich cefnogi:

| ROLAU | CWMPAS A SWYDDOGAETH |
|---|---|
| Tiwtor | Darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys y cymhwyster. Gall y tiwtor hwyluso'r broses asesu. |
| Aseswr Mewnol | Aseswr cymwys – bydd yn gyfrifol am benderfynu ar ganlyniad y tasgau gan ddefnyddio meini prawf a osodir yn allanol a chwblhau arsylwadau ffurfiannol ac adolygol. |
| Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol | Sicrhau bod y broses o asesu tystiolaeth o ansawdd cyson a phriodol. |
| Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol | yn gyfrifol am gadarnhau bod y gwaith o gynllunio, cyflwyno ac asesu'r tasgau a asesir yn fewnol wedi'i wneud yn unol â pholisïau a gweithdrefnau City & Guilds. |
| Aseswr Allanol City & Guilds* | Aseswr cymwys sy'n gyfrifol am gwblhau un arsylwad o ymarfer, gan gynnal trafodaeth broffesiynol a gwneud y dyfarniad asesu terfynol. |
| Aseswr Arweiniol City & Guilds* | Bydd yn gyfrifol am samplu a safoni'r dyfarniad asesu a bennir gan aseswyr allanol. |

***Penodir y rolau hyn gan City & Guilds – byddwch with mae’n bosib y byddwch**

# Canolbwyntio ar arweinyddiaeth

Drwy gydol cymhwyster **Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, ceir canolbwyntio ar ddatblygu eich sgiliau arwain a rheoli fel er mwyn i chi allu dangos sut y gallwch ‘arwain a rheoli’.

Mae’r holl unedau yn canolbwyntio ar eich gallu i reoli, yn hytrach na hyrwyddo neu gefnogi. O ganlyniad, mae’r deilliannau dysgu drwy gydol y cymhwyster yn ei gwneud yn ofynnol i chi weithio ar lefel uwch o gyfrifoldeb.

| | | |
|---|---|---|
| e.e. | Uned 520 | Deilliant Dysgu 1 – Arwain a rheoli ymarfer sy’n helpu unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol |
| | Uned 539 | Deilliant Dysgu 4 – Arwain a rheoli cefnogaeth i ofalwyr er mwyn darparu lleoliadau/trefniadau Cysylltu Bywydau |

Dangosir hyn hefyd mewn llawer o feini prawf asesu.

| | | |
|---|---|---|
| e.e. | Uned 521 | Meini Prawf Asesu 1.2 – Arwain ymarfer sy’n hyrwyddo dulliau gweithredu cynhwysol er mwyn cadarnhau dymuniadau’r unigolyn |
| | Uned 522 | Meini Prawf Asesu 7.1 – Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith ar gyfer ymdrin â pherfformiad gwael |
| | Uned 523 | Meini Prawf Asesu 2.3 – Arwain gwaith i nodi sut y caiff perfformiad y gwasanaethau a ddarperir ei fesur, gan gynnwys dangosyddion allweddol a rolau a chyfrifoldebau |
| | Uned 525 | Meini Prawf Asesu 1.2 – Monitro cydymffurfiaeth â gofynion diogelu a chymryd camau gweithredu lle na cheir cydymffurfiaeth |
| | Uned 532 | Meini Prawf Asesu 3.5 – Arwain a rheoli ymarfer ar gyfer defnyddio ac addasu dulliau cyfathrebu sy’n ymateb i synnwyr pob unigolyn o realiti, ei anghenion a’i ddewisiadau |

# Ymgysylltu â chyflogwyr

I gyflawni'r cymhwyster **Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol** mae'n rhaid i chi fod yn gweithio mewn rôl arwain neu reoli mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. Er nad yw'n hanfodol, mae'r cymhwyster hwn yn rhoi cyfle i'ch cyflogwr chwarae rhan mawr yn eich dysgu, datblygiad a chynnydd drwy gydol eich cymhwyster, ac mae hyn yn rhywbeth y dylid ei annog a'i gefnogi'n fawr.

# Beth yw mentor yn y gweithle?

Gall eich cyflogwr neilltuo mentor yn y gweithle i chi. Nid yw mentoriaid yn y gweithle yn ofyniad gorfodol ar gyfer y cymhwyster hwn, ond mae rhai cyflogwyr a darparwyr yn cydnabod bod ganddyn nhw rôl bwysig yn nysgu ac asesu yn y gweithle. Bydd mentor yn y gweithle yn eich helpu i wneud cysylltiadau rhwng yr hyn y gallech chi ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a sut mae hyn yn gymwys yn y byd gwaith. Gall hefyd eich helpu i nodi a gwneud y defnydd gorau o unrhyw gyfleoedd eraill ar gyfer dysgu sy'n digwydd pan fyddwch 'yn y gwaith'. Efallai y bydd eich aseswr mewnol hefyd yn gallu gweithio fel eich mentor.

# Nid wyf yn gyflogedig - ydw i'n cael cwblhau'r cymhwyster hwn o hyd?

This qualification is designed for individuals working in a leadership or management role within the health and social care sector (adults, and children and young people). If you are not currently employed it is highly recommended that you consider completing the following qualification:

- Lefel 4 Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# Sut olwg fydd ar fy nhaith drwy'r cymhwyster?

**Cam 1 – Cyn cyflwyno**

- Asesu cychwynnol a sefydlu

**Cam 2 – Cyfnod dysgu**

- Cyfnod dysgu ffurfiol
- Arwain at asesiad crynodol

**Cam 3 – Cyfnod yr Asesiad Crynodol**

- Asesir y cymhwyster gan gyfres o dasgau a osodir yn allanol

**Cam 4 – Cwblhau**

- Cyflwyno graddau asesu i City & Guilds
- Cadarnhau penderfyniad


- **Cwblhau'r cymhwyster Lefel 4 Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol** (neu gymhwyster cymaradwy a gytunwyd arno)

*Mae'n ofynnol eich bod yn cwblhau'r cymhwyster Lefel 4 Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol (neu gymhwyster cymaradwy a gytunwyd arno) cyn ymgymryd â'r cymhwyster hwn*

- **Cofrestru cychwynnol a Sefydlu**

- **Dewis unedau**

*Byddwch yn trafod yr opsiynau sydd ar gael i gwblhau'r cymhwyster gyda'ch aseswr/rheolwr/cyflogwr, e.e. dewis unedau dewisol*




Mae'r broses o gyflwyno Lefel 5 yn **adeiladu ar** gynnwys Lefel 4, ond nid yw'n ceisio ei ddyblygu yn ddiangen. Gall fod yn ddefnyddiol atgoffa neu ailbwysleisio elfennau penodol o'r cynnwys; fodd bynnag, dylai'r broses gyflwyno ganolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu sgiliau Lefel 5, gan ddeall bod yr ymgeiswyr eisoes yn meddu ar sail wybodaeth gadarn.

Byddwch yn cwblhau asesiad cychwynnol cyn i chi ddechrau eich rhaglen i nodi:

- p'un a oes gennych unrhyw anghenion hyfforddiant penodol
- unrhyw gefnogaeth ac arweiniad y gall fod ei angen arnoch wrth weithio tuag at ennill y cymhwyster
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir y dylai canolfannau gynnig rhaglen sefydlu fel bod y dysgwr yn deall yn llawn gofynion y cymhwyster, ei gyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan. Gall y wybodaeth hon gael ei chofnodi ar gontract dysgu. Byddai'n fuddiol iawn i'ch rheolwr/cyflogwr gymryd rhan, neu gyfrannu at, y drafodaeth hon.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol i chi drafod â'ch tiwtor/aseswr yr hyn rydych chi'n obeithio ei gyflawni o'r cymhwyster hwn, a byddai'n werthfawr gwneud datganiad personol ar ddechrau'r rhaglen, lle byddech yn ystyried eich nodau ar gyfer yr hyn rydych chi'n gobeithio'i gyflawni ar ôl cwblhau'r rhaglen, ac yn dal i ganolbwyntio ar y rhain drwy gydol y broses gyflwyno.

Efallai y bydd eich cydweithiwr neu eich darparwr yn y gweithle yn gofyn i chi ymwneud â dysgu ychwanegol sy'n canolbwyntio ar yr amrediad ehangach o sgiliau y gall fod eu hangen arnoch er mwyn cwblhau'r cymhwyster hwn, e.e. cyflwyniad i sgiliau ymchwilio ac astudio. Bydd cyflwyniad i'r sgiliau hyn o fantais fawr er mwyn eich cefnogi chi drwy'r broses gyflwyno, tasgau asesu a sefydlu profiad dysgu wedi'i gyfoethogi.

## Pa adnoddau fydd eu hangen arnaf?

You must have access to a suitable range of resources to carry out the assessment tasks. This will be discussed during your induction, and you should share this information with your manager/employer.

- **Adnoddau staff –** mae'n ofynnol i chi gael eich arsylwi yn rheoli pobl eraill fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer y cymhwyster hwn; dylai rheolwyr/cyflogwyr sicrhau eich bod yn cael cyfle, at ddibenion asesu, i ddefnyddio adnoddau staff fel y bo angen er mwyn gweithredu eich project busnes. Dylid rhesymu a chytuno ar lefel ofynnol yr adnodd fel rhan o gymeradwyo cynllun y project busnes.
- **Amgylchedd –** disgwylir i'r holl weithgareddau gael eu cyflawni fel sy'n digwydd mewn ymarfer gwaith arferol gan gynnwys y rhai a gyflawnir oddi ar y safle.

## Pa unedau y byddaf yn eu cwblhau?

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster **Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol**: rhaid i chi ennill cyfanswm 120 o gredydau o leiaf.

- Rhaid ennill 20 o gredydau o grŵp Gorfodol A*
- Rhaid ennill 70 o gredydau o grŵp Gorfodol B
- Rhaid ennill o leiaf 30 o gredydau o'r grŵp Dewisol

Byddai'n fuddiol iawn i'ch rheolwr/cyflogwr gymryd rhan yn y broses ddethol hon. Siaradwch â'ch rheolwr am ba unedau dewisol fyddai orau i'ch rôl chi yn y lleoliad ac am eu gweledigaeth o'r gwasanaethau a ddarperir.

*Dylai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn er mwyn arwain a rheoli gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ddewis uned 521 o Grŵp Gorfodol A. Dylai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn ar gyfer pob gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol arall ddewis uned 520 o Grŵp Gorfodol A.

## Beth yw credydau?

Rydym wedi dyfarnu gwerth credyd ar gyfer pob uned; mae’r gwerthoedd hyn i’w gweld yn llawlyfr y cymwysterau ac maen nhw wedi’u mynegi yn y tabl isod. Mae’r credydau a ddyfernir i uned yn adlewyrchu lefel a maint y wybodaeth, y ddealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau a’r ymarfer a fydd yn cael eu cyflawni drwy gwblhau’r uned.

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned | ODA | Credydau |
|---|---|---|---|
| Grŵp Gorfodol A | | | |
| 520 | Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog | 60 | 20 |
| 521 | Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog drwy eiriolaeth annibynnol | 60 | 20 |
| Grŵp Gorfodol B | | | |
| 522 | Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol | 65 | 18 |
| 523 | Arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol | 70 | 16 |
| 524 | Ymarfer proffesiynol | 50 | 12 |
| 525 | Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo diogelu unigolion | 60 | 12 |
| 526 | Arwain a rheoli iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith | 60 | 12 |
| Grŵp Dewisol | | | |
| 527 | Arwain a rheoli'r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal | 45 | 31 |
| 528 | Arwain a rheoli'r ddarpariaeth gofal ar gyfer plant a phobl ifanc anabl | 50 | 30 |
| 529 | Arwain a rheoli'r gefnogaeth i leihau arferion cyfyngol drwy ddulliau cadarnhaol i gefnogi ymddygiad | 40 | 21 |

Dim ond credydau ar gyfer un o'r canlynol y gall dysgwyr eu hennill:

- Uned 541 Arwain a rheoli gwaith gyda gofalwyr
- Uned 542 Arwain cefnogaeth i ofalwyr

Os bydd dysgwyr yn astudio'r ddwy uned fel rhan o'r cymhwyster hwn, dim ond credyd o un uned fydd yn cyfrif tuag at y cyfanswm credydau a gyflawnir.

Dylai dysgwyr ddewis unedau sy'n berthnasol i'w rôl ac i'r unigolion y maent yn gofalu amdanynt yn eu sefydliad/lleoliad.

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned | ODA | Credyd au |
|---|---|---|---|
| 530 | Arwain a rheoli gofal a chefnogaeth i unigolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain | 40 | 19 |
| 531 | Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal | 30 | 30 |
| 532 | Arwain a rheoli ymarfer mewn gofal dementia | 40 | 31 |
| 533 | Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw ag iechyd meddwl gwael | 40 | 31 |
| 534 | Arwain a rheoli'r gefnogaeth i unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth | 40 | 34 |
| 535 | Arwain gwaith gydag unigolion sy'n colli'r synhwyrau | 50 | 20 |
| 536 | Arwain a rheoli gwaith yn ymwneud â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau | 40 | 19 |
| 537 | Arwain gwaith yn ymwneud â gofal diwedd oes | 30 | 11 |
| 538 | Arwain a rheoli maes clinigol | 50 | 30 |
| 539 | Arwain a rheoli gwasanaethau lleoliadau oedolion/rhannu bywydau | 40 | 18 |
| 540 | Arwain a rheoli gwasanaethau eiriolaeth annibynnol | 20 | 24 |
| 541 | Arwain a rheoli gwaith gyda gofalwyr | 20 | 11 |
| 542 | Arwain cefnogaeth i ofalwyr | 10 | 8 |
| 543 | Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol | 20 | 10 |
| 544 | Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr | 10 | 9 |
| 545 | Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes | 20 | 12 |
| 546 | Arwain a rheoli tîm therapi | 80 | 20 |
| 401 | Defnyddio asesiadau i ddatblygu cynlluniau personol | 35 | 6 |

## Grŵp Dewisol

Mae un grŵp o unedau dewisol gyda chyfanswm o 21 uned ac mae'n rhaid i chi ddewis **o leiaf un uned ddewisol**. Rhaid i'ch unedau o ddewis o'r grŵp dewisol fod yn hafal i gyfanswm o 30 credyd. Dylech ddewis unedau sy'n berthnasol i'ch rôl ac i'r unigolion rydych yn gofalu amdanynt yn eich sefydliad/lleoliad. Byddai'n fuddiol iawn i'ch rheolwr/cyflogwr gymryd rhan yn y broses ddethol hon.

Mae llawer o'r unedau hyn yn canolbwyntio ar reoli gwasanaethau penodol mewn lleoliadau/gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol amrywiol. Mae unedau 527 a 528 yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc, ond mae uned 531 yn gysylltiedig ag arwain a rheoli gwasanaethau ar gyfer unigolion sy'n byw mewn lleoliadau cartref gofal. Mae uned 532 yn ymwneud ag arwain a rheoli ymarfer mewn gofal dementia, ac mae uned 536 yn ymwneud ag arwain a rheoli gwaith ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, ac mae uned 534 yn ymwneud ag arwain a rheoli cefnogaeth ar gyfer unigolion sydd ag anabledd dysgu/awtistiaeth.

Hefyd mae unedau yn y grŵp hwn sy'n canolbwyntio ar arwain a rheoli pobl; mae uned 541 yn gofyn i chi arwain a rheoli gwaith gyda gofalwyr, ac mae uned 542 yn gofyn i chi arwain cefnogaeth ar gyfer gofalwyr. Mae uned 543 yn gofyn i chi arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol, ac mae uned 544 yn eich cyfarwyddo i arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr.

I gwblhau uned yn y grŵp hwn mae'n rhaid i chi fod yn arwain a rheoli'r gwasanaethau perthnasol. Siaradwch â'ch rheolwr/cyflogwr am eu gweledigaeth o'r gwasanaethau a ddarperir, pa unedau dewisol sy'n gweddu orau i'ch rôl yn y lleoliad a thrafodwch addasrwydd yr unedau rydych chi'n eu hystyried.

- **Cyfnod dysgu ffurfiol**

*Byddwch yn ymgymryd â dysgu a hyfforddiant yn y gwaith ac asesu ffurfiannol parhaus*

- **Porth i asesu crynodol – arsylwadau**

*Cewch eich arsylwi'n ymarfer gan eich aseswr ar o leiaf dau achlysur ffurfiol*

*Ar ôl cwblhau'r arsylwadau, byddwch yn trafod a chytuno â'ch aseswr/rheolwr/cyflogwr pa mor barod ydych chi i gael eich asesu.*

**Asesiad cychwynnol cadarn a sefydlu, gan gynnwys Cydnabod Dysgu Blaenorol**

**Datblygu a chyfnerthu'r wybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau a sgiliau**

Byddwch yn adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Lefel 4 ac yn datblygu cymwyseddau a fydd yn egluro sut rydych yn defnyddio hwn ym mhob agwedd o'ch ymarfer.

**Penderfynu ar barodrwydd ar gyfer asesu: o leiaf dau arsylwad yn seiliedig ar ymarfer gan eich Aseswr Mewnol**

Bydd yr arsylwadau hyn yn gweithredu fel mynediad ar gyfer derbyn eich bod chi wedi'ch paratoi'n briodol i roi cynnig ar yr asesiad crynodol.

**Ffocysu ar yr unedau gorfodol er mwyn dangos hyder ymarferol**

Dylai'r aseswr mewnol ddefnyddio'r deilliannau dysgu o fewn cynnwys yr unedau gorfodol er mwyn cefnogi cadarnhad o'ch gallu i arddangos ymarfer yn y meysydd allweddol hyn*.

## *Meysydd allweddol

- Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog
- Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol
- Arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol
- Ymarfer proffesiynol
- Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu diogelu unigolion
- Arwain a rheoli iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith

## Cyfnod dysgu ffurfiol

Yn ystod eich cyfnod dysgu, byddwch yn datblygu 'pecyn adnoddau' o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau er mwyn i chi arwain a rheoli ymarfer yn eich sefydliad/lleoliad. Bydd eich dysgu yn eich cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am drosglwyddo eich gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i ymarfer, meithrin annibyniaeth, ymreolaeth a'r hyder sy'n angenrheidiol mewn rolau swyddi ar y lefel hon.

## Asesu ffurfiannol

Argymhellir bod eich tiwtor/aseswr mewnol yn gosod tasgau byrrach, ffurfiannol yn ystod y cyfnod dysgu hwn. Bydd y tasgau hyn yn golygu y cewch eich cefnogi wrth gymhwyso'r hyn yr ydych wedi dysgu yn barod yn fwy annibynnol, gan ddod â hyn at ei gilydd mewn ffordd debyg, fel eich bod yn gyfarwydd â fformat, amodau a disgwyliadau'r asesiad. Fe'ch anogir i fyfyrio ar y gweithgareddau asesu damcaniaethol a gyflawnwyd gennych yn rhan o gymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol** i gefnogi'ch asesiad wrth ymarfer ar Lefel 5.

## Paratoi ar gyfer asesiad

Cyn dechrau'r asesiad crynodol, bydd eich aseswr mewnol yn cadarnhau eich 'parodrwydd' drwy ei weithgareddau asesu ffurfiannol.

Bydd eich aseswr mewnol yn cyflawni **o leiaf dau** arsylwad seiliedig ar ymarfer i gefnogi dyfarniad eich bod yn barod am yr asesiad crynodol. Bydd yr arsylwadau hyn yn gweithredu fel 'porth' ar gyfer derbyn eich bod yn ddigon parod i roi cynnig ar yr asesiad crynodol. Bydd yr arsylwadau yn seiliedig ar unedau gorfodol y cymhwyster.

## Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n barod?

Os nad yw eich aseswr mewnol yn hyderus o'ch 'parodrwydd' ar ôl unrhyw un o'r **ddau** arsylwad, bydd yn trafod pa ddysgu neu hyfforddiant ychwanegol sy'n angenrheidiol a dylai drefnu pwynt gwirio pellach i gadarnhau bod y dysgu/hyfforddiant hwn wedi digwydd. Os nad yw'r aseswr mewnol yn fodlon â'r cynnydd rydych chi wedi'i wneud ar y pwynt gwirio hwn, dylid trefnu arsylwad(au) ymarferol pellach.

## Beth sy'n digwydd pan fyddaf yn barod?

Os yw eich aseswr mewnol yn hyderus o'ch 'parodrwydd' ar ôl **dau** arsylwad, bydd yn cyflwyno'r asesiad i chi. Pan fydd yr aseswr mewnol yn rhyddhau'r asesiad i chi, mae hyn yn golygu ei fod yn hyderus eich bod yn gweithio mewn ffordd sy'n dangos yn gyson y gwerthoedd, yr egwyddorion a'r ymddygiadau a ddisgwylir gan arweinydd wrth ymarfer yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

# Cam 3 – Cyfnod Asesu Crynodol

*Ar ôl i chi gytuno â'ch aseswr/rheolwr/cyflogwr eich bod yn barod am asesiad, byddwch yn dechrau paratoi ar gyfer eich asesiad terfynol.*

- **Portffolio o dystiolaeth**
- **Project Busnes**
- **Trafodaeth broffesiynol**

*Mae asesu yn gyfannol, sy'n golygu y bydd eich tystiolaeth yn cael ei chasglu o sefyllfaoedd gwaith go iawn sy'n dangos y gallech weithio'n hyderus a chyson ar draws pob agwedd ar y cymhwyster ar fwy nag un achlysur.*

# Sut bydd fy nghymhwyster yn cael ei asesu?

Asesir y cymhwyster **Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol** drwy gyfres o dasgau a osodir yn allanol. Bydd yr aseswyr perthnasol yn cyflwyno pob gradd asesu i City & Guilds, a fydd yn dyfarnu gradd cymhwyster gyffredinol os cyflawnir pob un o'r tair tasg yn llwyddiannus.

| TASG ASESU | HYD | PWRPAS | UNEDAU | ASESWR MEWNOL/ RÔL Y CYFLOGWR/ ASESIAD | GWEITHGAREDD ASESU |
|---|---|---|---|---|---|
| Tasg 1: Portffolio | Drwyddi draw | 'Dangos' tystiolaeth sy'n deillio o'r cyfnod asesu – **crynodol**.<br><br>Casglu tystiolaeth na chasglwyd yn ystod y project busnes. | Gorfodol a/ neu ddewisol | Darparu cefnogaeth ac arweiniad. | Asesir yn rhan o'r drafodaeth broffesiynol a fydd yn cael ei chynnal gyda'r Aseswr Allanol. |
| Tasg 2: Project Busnes<br><br>2a – Rhesymeg<br><br>2b – Cynllun<br><br>2c – Gweithredu<br><br>2ch – Gwerthuso | Tua 8–9 mis | Sut mae'r ymgeisydd:<br><br>• yn cefnogi, datblygu a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer unigolion, a phrofiad yr unigolion hynny, yn eu sefydliad/ lleoliad<br><br>• yn gweithio gyda phobl eraill ac yn eu rheoli yn y sefydliad/lleoliad er mwyn gweithredu'r project yn llwyddiannus. | Gorfodol a ddewisol | 2a – cyfarfod cysyniad<br><br>2b – cyfarfod cynllunio project<br><br>2c – o leiaf dau arsylwad gan Aseswr Mewnol (t19).<br><br>Dylai'r aseswr mewnol gysylltu'n rheolaidd i wirio fod popeth yn iawn drwy gydol y cyfnod hwn neu reoli gyda goruchwyliaeth. | 2a – rhesymeg, ffurflen cysyniad y cynnig<br><br>2b – cynllun project busnes wedi'i gwblhau, ffurflen cymeradwyo project busnes<br><br>2c – o leiaf un arsylwad gan Aseswr Allanol (**crynodol**), log myfyriol beirniadol<br><br>2ch – gwerthusiad cyffredinol o'r project busnes |

| TASG ASESU | HYD | PWRPAS | UNEDAU | ASESWR MEWNOL/ RÔL Y CYFLOGWR/ ASESIAD | GWEITHGAREDD ASESU |
|---|---|---|---|---|---|
| Tasg 3: Trafodaeth Broffesiynol | Crynodol<br><br>Hyd at 75 munud | Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar yr hyn rydych wedi'i ddysgu a'r datblygiad sydd wedi mynd rhagddo fel rhan o'r cymhwyster. Caiff hyn ei ategu gan y gweithgareddau a'r gwaith a gwblhawyd gan yr ymgeisydd fel rhan o'i raglen ddysgu a'i asesiadau | Gorfodol a Dewisol | Rhoi arweiniad ar fformat y drafodaeth a bydd yn cefnogi wrth fentora gweithgareddau er mwyn paratoi'r ymgeisydd ar gyfer cynnal y drafodaeth. | Trafodaeth a arweiniwyd gan yr ymgeisydd gyda'r Aseswr Allanol.<br><br>Rhaid i'r ymgeisydd ymateb i'r pwyntiau trafod a'r cwestiynau yn annibynnol heb gymorth, a chydymffurfio â'r amodau perthnasol os yw'r asesiad yn cael ei gynnal o bell.<br><br>Bydd unrhyw nodiadau paratoi y cyfeirir atyn nhw yn ystod y drafodaeth yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth. |

**Taith asesu lawn 9-12 mis yn dibynnu ar gontract cyflogaeth**

Dylai eich aseswr mewnol gyflwyno'r asesiad i chi pan benderfynir eich bod yn barod i sefyll yr asesiad ac wedi paratoi amdano.

Disgwylir cynnal yr holl dasgau asesu o fewn cyfnod o 9-12 mis. Bydd y cyfnod asesu hwn yn cychwyn ar ddechrau'r cyfarfod trafod cysyniad ac mae'n cynnwys treulio tua 8-9 mis yn cynhyrchu tystiolaeth ar gyfer y project busnes ac amser i gwblhau'r drafodaeth broffesiynol.

## Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud?

Cynlluniwyd yr asesiadau ar gyfer y cymhwyster hwn i roi cyfle i chi ddangos sut yr ydych yn defnyddio eich sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o arwain a rheoli yng nghyd-destun sefyllfaoedd gwaith go iawn yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r tasgau'n ei gwneud yn ofynnol i chi ystyried y ffordd y byddech yn ymddwyn fel arweinydd a rheolwr, a dylech ymgymryd â'r tasgau o'r safbwynt hwn, gan gymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth rydych chi wedi'u meithrin o'ch rhaglen ddysgu i ymateb i'r tasgau.

Lle bo'n bosibl, fe'ch anogir i ddefnyddio'ch profiad eich hun a myfyrdodau o brofiad blaenorol yn y sector gofal iechyd a chymdeithasol i gefnogi eich ymatebion.

Os byddwch chi'n cyfeirio at unrhyw brofiadau presennol neu flaenorol sy'n ymwneud â gweithio gydag unigolion neu bobl eraill, mae'n rhaid i chi sicrhau nad oes modd adnabod unrhyw unigolion na sefydliadau/lleoliadau rydych chi'n cyfeirio atyn nhw ym mhob un o'ch tasgau asesu. Dylai hyn gynnwys cymryd gofal i beidio â defnyddio cyfeiriadau neu wybodaeth benodol a allai, yn ddiofyn, nodi sefydliad/lleoliad, a gefnogir gan unigolyn neu unigolion eraill.

Bydd yr aseswyr perthnasol yn cyflwyno'r tair gradd asesu i City & Guilds, a fydd yn dyfarnu gradd cymhwyster gyffredinol os cyflawnir pob un o'r tair tasg yn llwyddiannus.

## Dull asesu

Bydd cymhwyster **Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yn cael ei asesu drwy gyfres o weithgareddau asesu.

- Bydd **portffolio o dystiolaeth** yn cael ei ddefnyddio i gasglu tystiolaeth asesu ar gyfer deilliannau dysgu lle efallai na fydd cyfleoedd ymarferol yn cael eu cyflwyno drwy'r project busnes. Bydd hyn yn cynnwys meysydd o'r unedau gorfodol a dewisol.
- Bydd **project busnes** yn cael ei ddefnyddio i gasglu tystiolaeth asesu ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynnwys gorfodol, yn ogystal â'r unedau dewisol lle y bo hynny'n bosibl. Fel rhan o'r project, bydd angen i chi wneud y canlynol:
    - nodi cyfle i weithredu darpariaeth/menter newydd neu ddiwygiedig yn y sefydliad/lleoliad
    - datblygu cynllun project ar gyfer gweithredu darpariaeth/menter newydd neu ddiwygiedig yn y sefydliad/lleoliad
    - gweithredu'r ddarpariaeth/menter newydd neu ddiwygiedig
    - gwerthuso canlyniad y broses weithredu.
- Penderfynir ar y dull asesu terfynol drwy werthusiad terfynol gennych chi o'ch gweithgareddau, ar ffurf **trafodaeth broffesiynol** a gynhelir gydag aseswr allanol.

**Ni chaniateir defnyddio asesiad ymarferol wedi'i efelychu fel tystiolaeth ar gyfer y cymhwyster hwn. Gall sefyllfaoedd neu weithgareddau ffug fod yn ddefnyddiol i ategu gweithgareddau asesu ffurfiannol, ond dylai tystiolaeth ar gyfer asesiad crynodol adlewyrchu'r ymarfer go iawn a wneir gennych.**

## Tasg 1: Portffolio o dystiolaeth

Mae angen i chi gadw portffolio o dystiolaeth drwy gydol eich cyfnod asesu. Bwriedir i'r portffolio gasglu tystiolaeth ar gyfer deilliannau na fyddai tystiolaeth uniongyrchol ohonynt drwy eich project busnes.

Gall hyn gynnwys y ddwy ran yn y cynnwys gorfodol, ac unrhyw unedau dewisol rydych chi'n eu cyflawni yn rhan o'ch rhaglen ddysgu. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r portffolio i ddarparu unrhyw enghreifftiau 'arddangos' o dystiolaeth sy'n dangos y gweithgareddau a'r cyflawniadau allweddol rydych chi wedi ymgymryd â nhw yn rhan o'ch ymarfer ar draws y cyfnod asesu.

## Tasg 2: Project busnes

Mae'n ofynnol i chi ymgymryd â phroject busnes yn eich sefydliad/lleoliad ac arwain ar y gwaith hwnnw. Dylid cyflawni'r project busnes dros gyfnod o tua 8-9 mis. Gosodwyd hyn i ddarparu digon o amser i nodi cyfle, cynllunio a gweithredu, ac yna i werthuso canlyniadau gweithredu'r ddarpariaeth neu'r fenter newydd/ddiwygiedig.

Mae'n rhaid i chi ystyried cynnwys yr unedau dewisol yr ydych yn eu cwblhau yn rhan o'r cymhwyster a sut y byddwch yn gallu dangos eich ymarfer o'r unedau hyn drwy gydol eich project busnes. Mae hyn yn cynnwys sut rydych wedi ystyried a defnyddio unrhyw ddamcaniaethau, modelau a gwaith ymchwil sy'n gysylltiedig â meysydd cynnwys yr uned ddewisol yn rhan o ddatblygiad a gweithrediad eich project busnes.

Yn eich cyfarfod cyntaf yn trafod y cysyniad, dylai eich aseswr mewnol a'r rheolwr/cyflogwr gadarnhau'r hyn sy'n ddisgwyliedig o ran amserlen cwblhau'r asesiad. Dylai hyn fod yn seiliedig ar eich rôl. Os y cytunir y bydd yr asesiad cyfan yn cymryd dros 9 mis, dylid cofnodi'r penderfyniad ar gyfer hyn, a dylid darparu rhesymeg i gadarnhau pam y cytunwyd ar y resymeg hon.

## Tasg 3: Trafodaeth Broffesiynol

Cewch eich gwahodd i fynychu trafodaeth broffesiynol i drafod gwaith a gwblheir yn rhan o'ch portffolio a'ch project busnes. Cynhelir y drafodaeth broffesiynol gydag aseswr allanol.

Cyflwynir tystiolaeth o'ch portffolio a'ch project busnes i'r aseswr allanol, a fydd yn defnyddio'r dystiolaeth i baratoi ar gyfer eich trafodaeth.

## Pa dystiolaeth y gallwn i ei defnyddio yn fy mhortffolio?

Bydd tystiolaeth ychwanegol yn cael ei chasglu drwy brosesau arferol y gweithle, gan gynnwys tystiolaeth gan eich cyflogwr neu fentor yn y gweithle.

- Tystion arbenigol
- Tystiolaeth tystion
- Dogfennau/cynhyrchion yn y gweithle
- Adroddiadau/logiau ymgeiswyr/myfyriol
- Ymatebion i gwestiynau
- Astudiaethau achos cefnogol.

## Tyst arbenigol

Lle y defnyddir tystion arbenigol i ddarparu tystiolaeth gefnogol fel rhan o'r portffolio, rhaid eu bod:

- yn meddu ar wybodaeth ddigonol am yr unedau y byddant yn rhoi tystiolaeth ar eu cyfer
- yn alwedigaethol gymwys yn eu maes arbenigedd i'r un lefel o leiaf â'r uned y byddant yn rhoi tystiolaeth ar ei chyfer
- yn meddu naill ai ar gymhwyster asesu perfformiad yn y gweithle neu fod wedi gweithio mewn swydd broffesiynol sy'n cynnwys gwerthuso ymarfer bob dydd staff.

# Log myfyriol

Gofynnir i chi gynnal log myfyriol wrth ochr gweithrediad y project busnes, gan ddangos eich gweithgareddau a'ch profiadau. Nid dyddiadur yw hwn i nodi naratif lefel uchel o ba weithgareddau a gyflawnwyd gennych, ond yn hytrach dylid ei ddefnyddio at bwrpasau hunan-fyfyrio, dadansoddi beirniadol ac adolygiad manwl o'r hyn a gyflawnwyd gennych; beth sydd wedi mynd yn dda, neu ddim cystal, a'ch meddyliau a'ch teimladau am sut i wella ymarfer.

Anogir eich tiwtor/rheolwr/cyflogwr i archwilio'r defnydd o arddulliau gwahanol o fyfyrio gyda chi, gan eich cefnogi i nodi a defnyddio fformat sy'n adlewyrchu eich dull dysgu orau ac sy'n eich cefnogi chi orau i symud ymlaen a datblygu eich myfyrdodau yn welliant ar eich ymarfer.


## Beth yw log myfyriol?

Mae eich log myfyriol yn ddarn hanfodol o dystiolaeth wrth gwblhau eich cymhwyster **Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol**. Mae'n ddarn ysgrifenedig o dystiolaeth lle rydych yn myfyrio ar eich ymarfer wrth weithio yn y lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol ac yn nodi unrhyw un o'ch anghenion datblygu eich hunain i drafod ymhellach â'ch rheolwr/cyflogwr/aseswr.

Mae'r log hwn yn fwy na dyddiadur a bydd yn cynnwys mwy nag un cofnod o ddigwyddiadau; bydd hefyd yn cynnwys hunan-fyfyrio, dadansoddi beirniadol ac adolygiadau manwl o'r hyn rydych wedi'i gyflawni, beth sydd wedi mynd yn dda, neu ddim cystal, a'ch meddyliau a'ch teimladau am sut i ddatblygu a gwella wrth ymarfer. Mae hefyd yn gyfle i chi ddangos eich bod yn gwybod ac yn deall y cysyniadau, y dulliau, y polisi a'r ddeddfwriaeth sydd wrth wraidd ymarfer o ansawdd uchel, person-ganolog ac sy'n seiliedig ar hawliau.

Anogir eich rheolwr/cyflogwr i'ch cefnogi i gwblhau'r log hwn gan ddefnyddio arddulliau gwahanol o logiau myfyriol, gan eich cefnogi i nodi a defnyddio fformat sy'n adlewyrchu orau eich arddull dysgu. Dylai eich rheolwr/cyflogwr fod yn sicr eich bod yn deall yr hyn y mae angen i chi ei wneud ac erbyn pryd, ac fod angen i chi ychwanegu esboniadau sy'n dangos dealltwriaeth yn ystod eich gwaith ysgrifenedig. Dylent sicrhau nad ydych yn cael eich arwain, nac yn cael cyfarwyddyd beth i'w wneud, mewn ffordd sy'n eich atal rhag gallu dangos eich proses gwneud penderfyniadau a'ch ymarfer eich hun.


Mae myfyrio yn broses barhaus werthfawr a phwysig iawn, ac fel y cyfryw, dylech ddiweddaru eich log yn rheolaidd yn ystod y cyfnod rhwng cyfarfodydd cynnydd. Bydd eich log yn destun trafodaeth yn ystod cyfarfodydd cynnydd a bydd yn galluogi i'ch aseswr a'ch rheolwr/cyflogwr gefnogi eich dysgu yn fwy trylwyr, pennu hyder a gwybodaeth, yn ogystal â'ch paratoi am asesiad.




Mae modelau amrywiol o fyfyrio y gallwch eu defnyddio ar gyfer eich log myfyriol **Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, ond argymhellir eich bod yn dilyn un o'r canlynol:


- Cylch Myfyriol Gibbs (1988)
- Model Myfyrio John (2000)
- Model cylchol Atkins a Murphy (1993).

Mae'r rhan fwyaf o fodelau myfyriol yn seiliedig ar yr egwyddor bod myfyrio yn arwain at ddysgu pellach. Fodd bynnag, bydd y modelau hyn a argymhellir yn eich arwain yn yr elfennau a'r haenau gwahanol sy'n ofynnol mewn myfyrio da, gan felly sicrhau eich bod yn cynnwys y manylion, y dadansoddi a'r myfyrio angenrheidiol yn eich holl gofrestriadau.






## Model Myfyrio Johns



## Beth yw trafodaeth broffesiynol?

Trafodaeth broffesiynol ffurfiol (Tasg 3) gydag aseswr allanol fydd y gweithgaredd asesu olaf y mae angen i chi ei gwblhau. Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar yr hyn rydych wedi'i ddysgu a'r datblygiad sydd wedi mynd rhagddo fel rhan o'r cymhwyster. Caiff hyn ei ategu gan y gweithgareddau a'r gwaith a gwblhawyd gennych fel rhan o'ch rhaglen ddysgu a'ch asesiadau. Bydd gan yr aseswr ddiddordeb yn eich dull gweithio, sy'n dangos y safon yr ydych yn ei gyflawni mewn ymarfer.

Mae'r aseswr allanol yn chwilio am dystiolaeth eich bod yn gallu cymhwyso amcanion y cymhwyster yn rôl eich swydd ac eich bod yn dangos tystiolaeth o weithio mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu'r cymwyseddau hyn, gydag enghreifftiau sy'n deillio o'ch tasgau asesu a'ch ymarfer gwaith eich hun, ac yn myfyrio ar y rhain.

Rhaid i chi ymateb i'r pwyntiau trafod a'r cwestiynau yn annibynnol heb gefnogaeth, a chydymffurfio â'r amodau perthnasol os yw'r asesiad yn cael ei gynnal o bell.

## Cyn y drafodaeth

O leiaf tair wythnos cyn y dyddiad a drefnwyd ar gyfer eich trafodaeth broffesiynol, rhaid cyflwyno eich tystiolaeth ar gyfer Tasgau 1 a 2 i City & Guilds.

Bydd eich aseswr mewnol yn rhoi arweiniad i chi ynghylch fformat y drafodaeth a bydd yn eich cefnogi gyda gweithgareddau mentora i'ch paratoi i fynd i'r afael â'r drafodaeth.

## Amseriadau

Ni ddisgwylir i'r drafodaeth hon bara mwy na 75 munud i gyd.

## Cadw tystiolaeth

Mae hawl gan yr aseswr i recordio'r drafodaeth yn ddigidol er mwyn cefnogi'r broses asesu, e.e. i ôl-adolygu'r drafodaeth, neu helpu i wneud nodiadau y gall fod yn anodd eu gwneud yn llawn yn ystod y drafodaeth ei hun. Os bydd yr aseswr yn bwriadu recordio'r drafodaeth yn ddigidol, rhaid eich bod wedi trafod a chytuno ar hyn cyn dechrau'r drafodaeth

## Cefnogi'r broses asesu

Bydd eich aseswr mewnol yn:

- Adolygu cysyniad a chynllun eich project busnes o ran dichonoldeb a sicrhau bod y cyfle yn cynnig digon o dystiolaeth i fodloni'r gofynion asesu (Tasg 2b).
- Eich arsylwi yn rhoi'r cyflwyniad o'ch project busnes ar waith ar o leiaf dau achlysur (Tasg 2c) – **yn ogystal â'r 2 arsylwad (o leiaf) a fydd yn cael eu cwblhau yn ystod y broses asesu ffurfiannol**.
- Darparu tystiolaeth o arsylwadau ymarferol a thystiolaeth o'r amgylchedd gwaith, e.e. defnyddio arsylwadau/tystiolaeth tystion sydd wedi'u cynnwys yn y portffolio. Bydd y dystiolaeth hon yn llywio barn ac arsylwadau cyffredinol yr aseswr allanol.
- Eich cefnogi i ddatblygu portffolio o dystiolaeth sy'n ategu tystiolaeth o ymarfer ar gyfer deilliannau dysgu nas gwelwyd yn y project.
- Darparu hyfforddiant parhaus i'ch cefnogi chi yn rhan o'ch project busnes, ac i gynorthwyo eich paratoadau ar gyfer y drafodaeth broffesiynol (Tasg 3).

## Cyswllt Rheolaidd

Bydd eich tiwtor/aseswr mewnol hefyd yn eich cefnogi drwy gysylltu'n rheolaidd i wirio fod popeth yn iawn drwy gydol eich project busnes i sicrhau eich bod yn bwrw ymlaen â'ch cynllun gweithredu. Gall hyn ddigwydd yn rhan o oruchwyliaeth sydd eisoes wedi'i chynllunio a'i hamserlennu. Fe'ch anogir i adolygu eich log myfyriol ac i adeiladu ar ganlyniad hyfforddiant yn ystod y cysylltiadau rheolaidd hyn i gefnogi eich ymarfer, ac i ymgorffori'r canlyniadau hyn. Dylid myfyrio i ddangos sut rydych wedi llwyddo i wneud hyn.

## Cyflwyno gwaith

Ar gyfer y tasgau asesu sy'n gofyn am ymatebion ysgrifenedig, disgwylir bod gan yr ymgeisydd fynediad i offer TG a'r rhyngrwyd, fel y bo'n briodol er mwyn cwblhau'r tasgau. Disgwylir i chi gynhyrchu ymatebion wedi'u teipio ar gyfer eich gwaith ysgrifenedig.

- Rhaid bod pennawd ar bob tudalen o'r dystiolaeth yn cynnwys eich enw a'ch llofnod/e-lofnod, ynghyd â'r dyddiad y cyflwynwyd y dystiolaeth.
- Rhaid i bob darn o dystiolaeth gyfeirio at y dasg y mae'n cael ei chyflwyno yn ei erbyn, naill ai ar ffurflen gyfeirnodi'r dystiolaeth neu yn y pennyn.
- Dylai bob darn o dystiolaeth fod yn daclus, h.y. defnyddiwch ffont safonol mewn maint darllenadwy (megis Times New Roman, neu ffont tebyg, maint 12), gofod dwbl a dylid sicrhau bod digon o le ar ymyl y dudalen.
- Lle y bo'n berthnasol, gallwch chi ddefnyddio a chyfeirio at adnoddau allanol drwy gydol y tasgau asesu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi nodi'n glir unrhyw adnoddau allanol rydych chi wedi cyfeirio atyn nhw neu wedi'u defnyddio fel rhan o'ch ymatebion. Mae adran **'Beth mae'n rhaid i chi ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad'** pob tasg yn nodi'n glir lle mae'n rhaid darparu rhestr gyfeirio os ydych chi wedi defnyddio adnoddau allanol fel rhan o'ch ymateb i'r dasg.

## Cefnogaeth ac adborth

- Gall tiwtoriaid/aseswyr mewnol roi arweiniad i chi o ran y dystiolaeth sy'n ofynnol drwy gefnogi mynediad i'r tasgau.
- Dylai'r tiwtor/aseswr sicrhau eich bod yn deall yr hyn y mae angen i chi ei wneud ac erbyn pryd, a bod angen i chi ychwanegu esboniadau sy'n dangos dealltwriaeth yn eich gwaith ysgrifenedig.
- Fodd bynnag, dylid sicrhau **nad ydych yn cael eich arwain, nac yn cael cyfarwyddyd beth i'w wneud, mewn ffordd sy'n eich atal rhag gallu dangos eich proses gwneud penderfyniadau a chymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth yn annibynnol.**

- **Cyflwyno graddau asesu i City & Guilds**
- **Cadarnhau'r penderfyniad**

*Cewch eich hysbysu o ganlyniad yr asesiad.*
*Os nad chyflawnwyd yr asesiad, amlinellir y rhesymau ar gyfer y canlyniad hwn – a bydd adborth yn cael ei roi ar yr hyn y mae angen ei wneud nesaf.*

## Ailgyflwyno

Os bydd angen i chi gyflwyno mwy o dystiolaeth, rhaid i'r ganolfan ddarparu adborth a chefnogaeth briodol er mwyn eich galluogi i wneud hynny. Os na fyddwch yn cyflawni'r deilliannau dysgu priodol wrth ailgyflwyno tystiolaeth, dylai'r ganolfan naill ai:

- drefnu cefnogaeth ychwanegol ar eich cyfer, neu
- rhoi gwybod i chi am eich hawl i apelio.

Pan fydd yn ofynnol i ymgeisydd ymgymryd â thrafodaeth broffesiynol bellach, dylai'r aseswr mewnol ddarparu llwybr archwilio clir sy'n dangos y ffordd cafodd yr ymgeisydd adborth, a pha gamau unioni gafodd eu cymryd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu unrhyw ddiffygion o ran gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeisydd.

**Nid oes unrhyw gyfyngiad o ran sawl gwaith y gallwch ailsefyll/ailgyflwyno tasgau rydych chi wedi methu llwyddo ynddyn nhw yn rhan o'r cymhwyster hwn.**

## Beth sy'n digwydd ar ôl fy nhrafodaeth broffesiynol?

Ar ôl i chi gwblhau eich trafodaeth broffesiynol, bydd yr aseswr allanol yn sicrhau bod yr holl ofynion asesu wedi'u cyflawni ac yn cynnal asesiad cyfannol terfynol.


Fel rhan o'i ddyfarniad asesu terfynol, dylai'r aseswr mewnol ystyried sut rydych chi wedi bodloni'r meysydd amcan allweddol – yng nghyd-destun yr unedau gorfodol ac unrhyw unedau dewisol a ddewiswyd.

Ar ôl cwblhau'r dyfarniad asesu terfynol, bydd yr aseswr allanol yn ei gyflwyno i City & Guilds, fel cadarnhad o'ch canlyniad. Bydd City & Guilds yn cadarnhau'r canlyniadau o fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl cwblhau'r drafodaeth broffesiynol.

# Pa gefnogaeth sydd ar gael i mi?

Efallai y bydd modd i chi wneud cais am gefnogaeth pellach yn ystod eich cyfnod astudio ac asesu. Bydd angen i chi fodloni meini prawf penodol, a gallai'r broses gymryd peth amser i'w threfnu, felly sicrhewch eich bod yn siarad â'ch tiwtor/athro/hyfforddwr cyn gynted ag y gallwch fel eu bod yn gallu gwneud trefniadau. Nid yw pob cais am gefnogaeth ychwanegol yn llwyddiannus ac efallai y gofynnir i chi am dystiolaeth benodol er mwyn helpu i wneud y penderfyniad cywir.

**COFIWCH** – Cyn sefyll asesiad, mae'n bwysig bod yn hyderus eich bod yn barod, a bydd eich tiwtor/athro/aseswr yn eich helpu i sylweddoli pan fyddwch wedi cyrraedd y pwynt hwn. Yn ystod y cyfnod dysgu, dylech gael cyfleoedd i ymarfer gweithio gydag unigolion yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Edrychwch ar yr adnoddau dysgu ar y gwefannau canlynol:




Dysgu Iechyd a Gofal Cymru:
https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/

Gofal Cymdeithasol Cymru:
https://gofalcymdeithasol.cymru/resources-guidance
https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau
https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan

# Sut alla i baratoi ar gyfer fy asesiadau?

Dylech ddechrau paratoi ar gyfer eich asesiadau cyn gynted ag y byddwch yn dechrau ar eich cymhwyster. Po gyntaf y byddwch yn dechrau trefn astudio da, y lleiaf fydd y straen arnoch chi. I sicrhau bod yr astudio'n llwyddiannus, mae angen sgiliau trefnu a rheoli amser da, ond mae hefyd angen i chi fod yn realistig. Os ydych chi'n gweithio yn ogystal â mynd i'r ysgol neu goleg, neu os rydych chi'n cyflawni rhaglen yn y gwaith megis prentisiaeth, bydd angen i chi gynllunio eich amser astudio. Byddwch yn falch eich bod yn astudio a rhowch wybod i'ch teulu a'ch ffrindiau y bydd angen eu cefnogaeth arnoch ac fod hyn yn ddisgwyliedig.

Mae rhai pobl yn ei chael hi'n haws ac yn fwy effeithiol astudio'r peth cyntaf yn y bore, ac mae'n well gan rai eraill wneud yn ddiweddarach yn y diwrnod, ond ni waeth beth fo'r adeg yn y dydd, mae'n llawer haws astudio a gwneud hynny'n llwyddiannus mewn gofod tawel a chyfforddus sy'n olau a gyda digon o aer, gyda rhywle i ysgrifennu a darllen.

Mae llawer o adnoddau ar gael ar y gwefannau canlynol, a fydd yn eich helpu i astudio:

**GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU**

https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/dogfennau

**ADNODDAU DYSGU DIGIDOL**

https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/

https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan

Mae llawer o adnoddau a phropiau a allai eich helpu i astudio:

- Gall ysgrifennu â beiros lliwgar eich helpu i ddod o hyd i eiriau neu ymadroddion allweddol pan fyddwch yn adolygu.
- Gall crynhoi eich nodiadau eich helpu i drefnu eich dysgu ac i leihau ailadrodd.
- Mae gweithio gyda phobl eraill mewn grwpiau bach gan rannu gwybodaeth a dealltwriaeth a phrofi eich gilydd yn werthfawr iawn.
- Cymryd egwylion rheolaidd – gall awyr iach ac ymarfer corff roi hwb i'ch egni a'ch helpu i ganolbwyntio.
- Seibiant o'r cyfryngau cymdeithasol. Diffoddwch y sain ar eich ffôn, neu diffoddwch y ffôn, a fyddai hyd yn oed yn well.

**COFIWCH** na allwch astudio'n dda os ydych chi wedi blino, dan straen, neu ar frys. Cynllunio a phenderfynu yw'r allwedd!

# Dilyniant ar draws y sector ehangach

Mae'r cymhwyster **Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yn rhan o gyfres fwy o gymwysterau sydd wedi'u cynllunio i alluogi dilyniant yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, i rolau eraill yn y gwasanaethau gofal plant ac astudio neu hyfforddiant proffesiynol pellach.

Ar ôl i chi gwblhau'r cymhwyster **Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, efallai y byddwch yn penderfynu eich bod am weithio mewn gofal plant, neu barhau i astudio. Bydd y cymwysterau canlynol yn eich helpu i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae eu hangen i weithio mewn rhannau eraill o'r sector ehangach ac er nad ydynt yn hanfodol, gallan nhw gynorthwyo â dilyniant i astudiaeth pellach neu uwch:

- Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Oedolion, Plant a Phobl Ifanc)
- TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 4 Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

## A fydd cyflogwyr y tu hwnt i Gymru gydnabod fy nghymhwyster?

Mae cynnwys y cymhwyster hwn yn cynrychioli pwysigrwydd gwybodaeth a dealltwriaeth Lefel 5 sy'n hanfodol i weithio mewn rôl arwain a rheoli yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n ofynnol y bydd dysgwyr wedi cwblhau'r canlynol yn flaenorol:

- Lefel 4 Arwain a Rheoli yn maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r holl gymwysterau yn y gyfres yn gysylltiedig ag agweddau allweddol ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y mae rheoleiddwyr gweithle a sefydliadau'r sector yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cydnabod eu bod yn cynrychioli'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae eu hangen i weithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y DU.

## Cyllid

Mae'r holl gymwysterau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn rhai y gellid eu cyllido yng Nghymru, gan gynnwys Prentisiaethau. Siaradwch â'ch ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle am gyfleoedd cyllid y gallent fod yn addas i'ch anghenion.

# Sut rydw i'n hoffi dysgu – Beth yw fy 'hoff' arddull dysgu?


Mae dysgu'n broses unigol iawn, ac felly mae hi'n bwysig eich bod chi'n canolbwyntio ar sut gallwch chi ddysgu a phrosesu gwybodaeth yn effeithiol a sut gall hyn fod o gymorth i'ch llwyddiant a'ch dilyniant. Mae'n bwysig eich bod chi'n dysgu'n effeithiol er mwyn gallu galw eich gwybodaeth newydd i gof yn rhwydd pan fydd angen. Nid dim ond mater o wneud yn dda yn eich asesiadau yw hyn – mae'r un mor bwysig eich bod chi'n gallu galw eich gwybodaeth i gof wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl eraill. Bydd y cymhwyster hwn yn eich galluogi chi i feithrin a dangos eich gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae ymchwil yn awgrymu bod gan y rhan fwyaf o bobl hoff ffordd o ddysgu, a bod modd disgrifio hyn yn fras ag un neu ddau o'r canlynol:

- Gwneud
- Meddwl
- Teimlo
- Gwylio


Dros y blynyddoedd, mae cryn dipyn o fodelau neu ddamcaniaethau wedi cael eu datblygu i geisio ein helpu ni i ddeall sut rydyn ni'n dysgu a pha fathau o bethau y gall fod eu hangen ar wahanol unigolion i wneud dysgu'n broses haws a mwy llwyddiannus. Dau o'r modelau mwyaf poblogaidd, neu gyffredin, yw damcaniaeth dysgu drwy brofiad Kolb (1984) a damcaniaeth Honey a Mumford (1983) ar arddulliau dysgu.

Mae model Kolb yn awgrymu bod dysgu effeithiol yn digwydd mewn cylch, bod 'profiadau' yn ganolog i'r broses a bod y rhan fwyaf o bobl yn dysgu gan ddefnyddio un neu ddau fath o weithred – teimlo, meddwl, gwylio, gwneud.




Kolb D.A. (1984) 'Experiential Learning experience as a source of learning and development', New Jersey: Prentice Hall

Fe wnaeth Honey a Mumford adeiladu ar ddamcaniaeth Kolb, gan awgrymu pedwar math o arddull dysgu ac mai dim ond un neu ddau o'r rhain fyddai'n dylanwadu'n drwm ar ddull dysgu 'unigolyn'.




Pan gyflwynwyd pwnc 'hoff' arddulliau dysgu am y tro cyntaf fel ffordd o hybu dysgu effeithiol, roedd llawer o bobl yn credu mai dim ond un ffordd oedd i unigolion ddysgu ac nad oedd hyn yn newid rhyw lawer. Mae syniadau modern am 'hoff' ddull dysgu'n cydnabod na ddylid meddwl am ymagwedd at ddysgu fel rhywbeth sydd ddim yn newid. Mae meddwl am sut mae'n well gennych chi ddysgu'n ffordd ddefnyddiol o'ch helpu chi i ystyried sut rydych chi'n ymateb yn wahanol i wybodaeth gan ddibynnu ar bethau fel sut rydych chi'n teimlo, eich cymhelliant a'ch hyder, y math o amgylchedd rydych chi ynddo, ac ati.

Os meddyliwch chi am y tro diwethaf i chi orfod dysgu rhywbeth, efallai y gwelwch chi fod eich hoff ddull yn ffitio yn un, neu efallai ddau, o'r categorïau canlynol:

| ARDDULL DYSGU | EFALLAI MAI HWN FYDD EICH HOFF ARDDULL DYSGU OS: | RYDYCH YN: | MATHAU O DDULLIAU DYSGU SY'N APELIO |
|---|---|---|---|
| GWEITHREDYDD | ydych chi'n hoffi dysgu drwy wneud | frwdfrydig; yn tueddu i wneud pethau yn gyntaf ac ystyried wedyn; yn canolbwyntio ar y fan hyn a nawr | Taflu syniadau, arbrofion ymarferol, chwarae rôl, trafodaeth grŵp a datrys problemau |
| PRAGMATYDD | ydych chi'n hoffi gwybod sut mae pethau'n gweithio neu sut gallai pethau weithio yn y byd go iawn | tueddu i sefyll yn ôl; yn ystyried pob ongl; yn tueddu i fod yn rhy ofalus | Astudiaethau achos ac amser i feddwl am gymwysiadau ymarferol yr hyn rydych chi'n ei ddysgu |
| MYFYRIWR | ydych chi'n hoffi meddwl am beth rydych chi'n ei ddysgu | hoffi rhoi cynnig ar bethau; yn mynd i weithredu'n gyflym ac yn hyderus; yn gallu bod yn ddiamynedd; yn ddatryswr problemau effeithiol | Treulio amser yn darllen ynglŷn â phwnc a gwylio pobl eraill yn rhoi cynnig ar bethau |
| DAMCANIAETHWR | ydych chi'n hoffi deall sut mae'r pethau newydd rydych chi'n eu dysgu'n ffitio yn eich 'model gwaith' neu 'fframwaith' ac mewn damcaniaethau blaenorol | dda am addasu; yn hoffi dadansoddi, meddwl yn ddwfn am bethau; yn feddyliwr rhesymegol | Modelau a damcaniaethau, gyda digonedd o wybodaeth gefndir |

Os meddyliwch chi am rai profiadau dysgu eraill rydych chi wedi'u cael, efallai y sylwch chi eich bod chi wedi defnyddio dull gwahanol oherwydd, er enghraifft, (1) roedd adnoddau gwahanol ar gael i chi, (2) roeddech chi'n teimlo'n hyderus, (3) roeddech chi'n gallu cymryd eich amser. Mae hyn oherwydd bod yr amgylchedd, eich teimladau emosiynol a'ch profiadau o ddysgu yn y gorffennol i gyd yn gallu effeithio ar eich ymagwedd at ddysgu heddiw.

Siaradwch â'ch tiwtor/athro/athrawes/aseswr/mentor yn y gwaith/cyflogwr am yr hyn sy'n gwneud dysgu'n haws i chi a pha bryderon sydd gennych chi, os o gwbl, am ddechrau cymhwyster neu raglen astudio newydd. Efallai y bydd eich tiwtor/athro/athrawes/aseswr/mentor yn y gwaith/cyflogwr hefyd yn gallu eich cynorthwyo chi i gael cymorth a chyngor ychwanegol, gan gynnwys sut i adnabod a deall yn well pa wahanol ddulliau dysgu sy'n gweithio orau i chi.